## Sul y Pasg

**Galwad i Addoli:**
Crist a gyfododd. Haleliwia.
Y mae'r maen wedi ei dreiglo i ffwrdd oddi wrth y bedd. Haleliwia.
Nid yw ef yma ymhlith y meirw. Haleliwia.
Y mae'r Un Byw yn mynd o'n blaen. Haleliwia.
Awn gydag ef. Haleliwia.
Addolwn ef. Haleliwia.

**Darllen Salm 66; Datguddiad 1:12–18**

**Gweddi:**
Grist Bendigedig,
yr wyt ti'n sefyll yn ein mysg.
Agorwn ein llygaid, edrychwn o'n hamgylch a gwelwn y cyfarwydd –
wynebau cyfarwydd y rhai sy'n bererinion ar y ffordd gyda ni.
Clywn leisiau cyfarwydd –
lleisiau cyfarwydd y rhai sy'n moli gyda ni.
Synhwyrwn bresenoldeb cyfarwydd –
megis garddwr yn yr ardd,
megis cwmnïwr difyr ar y daith,
megis cyfaill sy'n ein gwahodd i frecwasta.

Mae ddoe, bore'r trydydd dydd, yn bell yn ôl,
ond drwy ffydd daw'n fyw yn ein dathlu yma'n awr.
Gad i ni weld y byw ymhlith y meirw;
gad i ni glywed ein henwau'n cael eu galw;
gad i'n calonnau gael eu cynhesu.

Grist Bendigedig,
yr wyt ti'n mynd o'n blaen;
maddau ein hamharodrwydd i'th ddilyn.
Yr wyt ti'n dangos y ffordd;
maddau ein hoffter o lwybrau eraill.
Yr wyt ti'n ein gwahodd i ddod atat;
maddau ein harafwch yn derbyn dy wahoddiad.

Grist Bendigedig,
gad i oleuni'r Pasg gyrraedd y mannau mwyaf tywyll ynom ni ac yn ein cymdeithas:
gad i ni weld ein hangen amdanat;
gad i ni weld y gwacter sydd ym mywydau eraill y gallwn ni a'r Efengyl ei lenwi;
gad i ni weld holl bosibiliadau ffydd ynot ti. Amen.

**Neges:**
Mair
Roedd rhaid mynd allan o'r tŷ. Ie, rhaid. Doeddwn i ddim yn teimlo fel gwneud hynny, ond dyletswydd

yw dyletswydd. Dyna olwg oedd arna i. Doeddwn i ddim wedi gwneud dim ond crio ers tridiau. Roedd fy llygaid fel dwy soser fawr goch. Fe ddaeth ac fe aeth pob pryd bwyd, ond doedd dim chwant bwyd arna i. Roedd cwsg, ar wahân i ryw eiliadau digon anesmwyth, yn amhosibl. Roedd fy meddwl yn ferw gwyllt. Fedrwn i ddim credu, ac eto, roeddwn wedi gweld â'm llygaid fy hun. Fuo 'na ddim amser na chyfle i ddweud ffarwel. Fe ddigwyddodd y cyfan mor sydyn – roedd e gyda ni un funud, a'r funud nesaf...

Mae ei weld e'n hongian ar groes yn waeth na hunllef. Ofer yw cau fy llygaid – dw i'n dal i'w weld e.

Sefyll, edrych, ac yn methu gwneud dim.

Roedd hi'n fendith pan ddaeth y diwedd. Roedd hi'n hwyr yn y dydd. Roedd rhaid prysuro i'w gladdu, ond doedd dim amser i wneud popeth. Gorffen y gwaith yw fy nyletswydd.

Fedra i ddim credu hyn.
Dyw e ddim yn y man lle y cafodd ei roi i orwedd.
Ydw i'n dychmygu'r peth?
Ydw i'n colli arnaf fy hun?
Be' sy'n digwydd?
Ble mae e?
Falle fod y garddwr yma'n gwybod yr ateb?
Dim ond un gair ddwedodd e.
Roedd yr un gair yna'n ddigon.

**Gweddi:**

O Arglwydd ein Duw, y mae cwpan pob un ohonom yn orlawn.
Y mae'n llawenydd yn gorlifo.
Cododd Iesu – bendigedig fyddo d'enw di.

Ni wnaethom ddim i haeddu hyn;
ni allem fod wedi gwneud dim i haeddu hyn.
Dy waith di yw hyn – bendigedig fyddo d'enw di.

Yr ydym yma i ddathlu dy fuddugoliaeth.
Yr ydym yma i gael ein cyffwrdd gan dy fuddugoliaeth.
Yr ydym yma i gyhoeddi dy fuddugoliaeth.

Cofiwn a chyflwynwn i ti'r rhai sydd â'u cwpanau'n wag:
y rhai sydd heb brofi dim ond tristwch;
y rhai sydd heb brofi dim ond anobaith;
y rhai sydd heb brofi dim ond anghyfiawnder.

Gweddïwn y bydd i neges y Pasg ganiatáu iddynt brofi rhyw fesur o lawenydd, rhyw fesur o obaith, a'u nerthu i wrthsefyll pob anghyfiawnder.

Boed i'r hyn a ddywed heddiw wrthym ni ein hysbrydoli yn ein haddoliad,
ein calonogi yn ein tystiolaeth, a bywhau ac adnewyddu'n ffydd
fel y gallwn ei rhannu er clod i'th enw ac er mwyn dy Deyrnas. Amen.

**Neges:**

Un o bregethwyr mawr yr ugeinfed ganrif oedd W. E. Sangster. Yr oedd wedi gwneud enw iddo'i hun cyn dechrau ei weinidogaeth yn y Methodist Central Hall yn Llundain yn 1939. Ar wahân i'w bulpud yn y capel enwog hwnnw, cafodd gyfle fwy nag unwaith i gyhoeddi'r Gair yn y llochesi yr heidiai pobl y brifddinas iddynt pan oedd y Blitz ar ei waethaf.

Yr oedd yn bregethwr dylanwadol ac yn ysbrydoliaeth i genhedlaeth o bregethwyr ei enwad. Ond torrodd ei iechyd, a chafodd hynny effaith nid yn unig ar ei symudedd corfforol ond hefyd ar ei allu i lefaru. Er na allai bregethu, fe ymroes i ysgrifennu a gweddïo. Yn un o'i weddïau mae'n apelio ar Dduw i ganiatáu iddo barhau yn y frwydr. 'Nid oes gwahaniaeth gennyf,' meddai, 'os na allaf fod yn gadfridog, dim ond i ti roi catrawd i mi i'w harwain.'

Fe gollodd ei lais yn llwyr cyn y diwedd. Ar fore Sul y Pasg, ychydig wythnosau cyn ei farw, ysgrifennodd lythyr at ei ferch â'i law sigledig. Meddai yn y llythyr, 'Peth ofnadwy yw dihuno ar fore'r Pasg heb lais i fedru gweiddi, "Efe a gyfododd". Gwaeth o lawer fyddai bod â llais ond heb yr awydd i weiddi.'

**Y Fendith:**

Boed i Dduw a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw ein cyfodi ninnau hefyd fel y gallwn fod yn fendith i eraill. Amen.

***Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies***